**Y Pwyllgor Busnes**

**Cofnodion BC(3)07-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 25 Medi 2007

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Yr Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ
Jocelyn Davies, Y Dirprwy Weinidog dros Dai
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)06-07 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 18 Medi 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion gerbron y pwyllgor ar ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddai'r cofnodion yn cael eu cyfieithu er mwyn eu cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)07-07(p1)**

3.1 Nododd y pwyllgor y busnes ar gyfer 25 a 26 Medi 2007.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y câi'r datganiadau llafar canlynol eu gwneud mewn cyfarfod llawn:

Datganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig am iechyd anifeiliaid (gan gynnwys clwy'r traed a'r genau a'r tafod glas), ddydd Mawrth.

Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ddarpariaeth y gwasanaeth iechyd yng ngogledd Cymru, ddydd Mawrth.

Datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am wasanaethau addysg yn Sir Ddinbych, ddydd Mawrth.

Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am adolygiadau o wasanaethau iechyd, ddydd Mercher.

3.3 Dywedodd Arweinydd y Tŷ bod y datganiad am hynt deddfwriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd i'w draddodi dydd Mawrth, i'w ohirio. Dywedodd y byddai datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi ddydd Mawrth.

3.4 Dywedodd Arweinydd y Tŷ bod y datganiad am theatr iaith Saesneg, a oedd i'w draddodi dydd Mawrth, wedi'i ohirio. Dywedodd y byddai datganiad am y blaenoriaethau ar gyfer y portffolio treftadaeth, a oedd i'w draddodi ar 2 Hydref, yn cynnwys y pwnc o dan sylw.

3.5 Cytunodd y pwyllgor i gynnal y cyfnod pleidleisio am 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3-wythnos busnes y Llywodraeth - BC(3)07-07(p2)**

3.6 Nododd y pwyllgor amserlen 3-wythnos busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3-wythnos busnes heblaw busnes y Llywodraeth - BC(3)07-07(p3)**

3.7 Penderfynodd y pwyllgor ar yr amserlen 3-wythnos ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen gyfnodol a dyddiadau toriad posibl ar gyfer 2008 - BC(3)07-07(p4)**

3.8 Cytunodd y pwyllgor ar yr amserlen gyfnodol a'r dyddiadau toriad posibl ar gyfer 2008. Dywedodd y cadeirydd y cyflwynid cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.1.

**4. Adolygu Rheolau Sefydlog**

**Papur ar Reol Sefydlog dros dro i ymdrin â'r gyllideb - BC(3)07-07(p5) a (p5a)**

4.1 Nododd y pwyllgor y papur ar y Rheol Sefydlog dros dro arfaethedig i ddisodli Rheol Sefydlog Rhif 27 o safbwynt cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd Arweinydd y Tŷ fod y Rheol Sefydlog dros dro yn angenrheidiol gan na fyddai canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn hysbys tan o leiaf 8 Hydref ac, o ganlyniad, byddai cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog presennol yn gofyn bod y cynlluniau gwario yn cael eu cyhoeddi cyn bod lefel yr adnoddau a fyddai ar gael yn hysbys. Cytunodd y pwyllgor i gyflwyno cynnig i adolygu Rheol Sefydlog Rhif 27 yn y cyfarfod llawn ddydd Mercher 3 Hydref.

**5. Pwyllgorau**

**Hysbysiad o bwyllgor rhanbarth o dan Reol Sefydlog Rhif 20 - BC(3)01-07(p6)**

5.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ar hysbysiad am Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd o dan Reol Sefydlog Rhif 20, ar 12 Mehefin. Cytunodd y pwyllgor i gyflwyno cynnig i sefydlu Pwyllgor y Gogledd yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3. Cytunodd y pwyllgor y byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i swyddogaeth a chylch gwaith y pwyllgor, ac y byddai angen ystyried y goblygiadau i adnoddau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Dywedodd Adrian Crompton y byddai'n dosbarthu'r cylch gorchwyl drafft i'r rheolwyr busnes y tu allan i'r pwyllgor.

**6. Unrhyw fusnes arall**

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**